

COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT

REPORT TO: **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWYLLGOR
CYNLLUNI, RHEOLEIDDIO A THRWDDEDU
CYFFREDINOL (MATERION TRWDDEDU
CYFFREDINOL)**

SUBJECT: **PWYLLGOR CYNLLUNI, RHEOLEIDDIO A
THRWDDEDU CYFFREDINOL (MATERION
TRWDDEDU CYFFREDINOL) - DYDD LLUN, 8
CHWEFROR 2021 DYDD LLUN, 8 CHWEFROR 2021**

REPORT OF:

PRESENT: D. HANCOCK (CADEIRYDD)

Councillors W. Hodgins (Is-gadeirydd)
D. Bevan
G. L. Davies
J. Hill
C. Meredith
K. Pritchard
T. Smith
D. Wilkshire
B. Willis
L. Winnett

WITH:

Helen Jones (Swyddog)
Sally-Ann Evans (Swyddog)
Steve Osborne (Swyddog)

ITEM	SUBJECT	ACTION
No. 1	<u>CYFIEITHU AR Y PRYD</u> Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.	

<p>No. 2</p>	<p><u>YMDDIHEURIADAU</u></p> <p>Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd K. Councillor.</p>	
<p>No. 3</p>	<p><u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u></p> <p>Ni adroddwyd unrhyw ddatganiad buddiant na goddefebau.</p>	
<p>No. 4</p>	<p><u>FFIOEDD TRWYDDEDAU ANSTATUDOL 2021/22</u></p> <p>Rhodddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Tîm – Safonau Masnach a Thrwyddedu.</p> <p>Siaradodd y Rheolwr Tîm – Safonau Masnach a Thrwyddedu am yr adroddiad a gyflwynwyd i hysbysu Aelodau am y ffioedd trwydded a gynigir ar gyfer 2021/22 yng nghyswllt tacsis, metel sgrap, masnachu stryd a sefydliadau rhyw. Dywedwyd y cafodd y ffioedd eu penderfynu gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol a'u cyflwyno i'r Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol i'w craffu.</p> <p>Cyfeiriodd y Rheolwr Tîm yr Aelodau at yr opsiwn a ffafrir, sef cadw'r ffioedd presennol ar gyfer 2021/2022 er mwyn cefnogi busnesau a'r cyhoedd yn ehangach yn ystod y cyfnod anodd a heriol hwn. Fodd bynnag, soniodd y Rheolwr Tîm am y goblygiadau i'r gyllideb a dywedodd fod pwysau cost ar incwm y Pwyllgor Trwyddedu o £33,000 ar gyfer 2020/21 ar hyn o bryd. Ni chafodd y Gyllideb Incwm ei chynyddu ar gyfer 2021/22 ac felly byddai'r pwysau cost yn parhau os na eir i'r afael â hi ac felly gallai o bosibl waethygu pe byddai nifer y trwyddedau y gwneir cais amdanynt yn gostwng. Er mai'r opsiwn a ffafrir yw cadw'r ffioedd presennol teimlai ei bod yn bwysig dangos i'r Pwyllgor beth fyddai'r goblygiadau ar y gyllideb.</p> <p>Dywedwyd, er ei bod yn arferol cynnal ymgynghoriadau ar gynnydd ffioedd, nad oedd angen ymgynghori pan nad oes unrhyw newidiadau i ffioedd.</p> <p>Esboniodd y Rheolwr Tîm – Trwyddedu a Safonau Masnach y ffioedd a amlinellir yn yr atodiadau.</p> <p>Croesawodd Aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol rewi ffioedd trwyddedu a chytuno ei bod yn amser anodd i fusnesau.</p>	

	<p>Mae'n bwysig fod yr Awdurdod Lleol yn cefnogi'r busnesau hyn ac felly</p> <p>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a bod Aelodau'n cefnogi'r cynnig i gadw lefelau ffioedd 2020/21 yn 2021/22.</p>	
No. 5	<u>EITEM(AU) EITHREDIG</u>	
No. 6	<p><u>RHESTR CEISIADAU AR GYFER TRWYDDEDAU CERBYD HACNI A HUR PREIFAT</u></p> <p>Gan roi ystyriaeth i'r farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol am y prawf budd cyhoeddus, o bwysu a mesur popeth, fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylai'r adroddiad gael ei eithrio.</p> <p>PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra bod yr eitem hon o fusnes yn cael ei thrafod gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14, Rhan 1, Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).</p> <p>Rhodddwyd ystyriaeth i adroddiad yr Uwch Swyddog Trwyddedu, yn cynnwys:-</p> <p><u>Cais am Drwydded Newydd Gyrrwr Cerbyd Hacni/Cerbyd Hur Preifat</u></p> <p>Rhodddwyd ystyriaeth i'r cais am drwydded newydd gyrrwr Cerbyd Hacni/Cerbyd Hur Preifat.</p> <p>Cyflwynwyd yr Ymgeisydd i Swyddogion ac Aelodau'r Pwyllgor.</p> <p>Ar wahoddiad y Cadeirydd dywedodd yr Uwch Swyddog Trwyddedu fod yr ymgeisydd am drwydded newydd a chyflwynodd gais yr Ymgeisydd i'r Aelodau.</p> <p>Wedyn gwahoddodd y Cadeirydd yr Ymgeisydd i gyflwyno ei achos.</p> <p>Cyfeiriodd yr Ymgeisydd at ddigwyddiadau ar ei gais a theimlai ei fod yn awr wedi aeddfedu a bod ei ymddygiad blaenorol tu ôl iddo.</p>	

Ar wahoddiad y Cadeirydd, rhoddodd yr Ymgeisydd ei resymau pam na ddylai'r Pwyllgor ddiddymu ei Drwydded.

Dywedodd yr Ymgeisydd iddo wneud cais am y drwydded i ddarparu ar gyfer ei deulu ac roedd wedi gobeithio, wrth i'r busnes tyfu, y gallai gynnwys bysus gan fod ganddo hefyd drwydded bws.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau gan Aelodau ar y pwynt hwn.

Gofynnodd Aelodau nifer o gwestiynau yng nghyswllt digwyddiadau ar ei gais a'r hyfforddiant/gyrru bws a wnaed gan yr Ymgeisydd.

Cafodd y cwestiynau eu hateb gan yr Ymgeisydd a Swyddogion.

Gadawodd yr Ymgeisydd a'r Swyddogion Trwyddedu y cyfarfod ar y pwynt hwn i Aelodau ystyried y cais.

Penderfynodd y Pwyllgor y cais yn faith a gwnaed penderfyniad a gwahoddwyd yr Ymgeisydd a'r Swyddogion yn ôl i'r cyfarfod.

Cadarnhaodd y Cadeirydd fod Aelodau wedi rhoi ystyriaeth ddyladwy i'r cais a gofynnodd i'r Cyfreithiwr ddarllen yn uchel benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu fel sy'n dilyn:

Mae'r cais gerbron y pwyllgor ar gyfer trwydded newydd gyrrwr Cerbyd Hacni a Cherbyd Hur Preifat. Hysbysodd y Swyddog Trwyddedu yr Aelodau na fu gan yr Ymgeisydd y math yma o drwydded o'r blaen.

Nododd y Pwyllgor o'r gofnod DBS a ddangoswyd iddynt heddiw fod gan yr Ymgeisydd nifer o euogfarnau blaenorol. Esboniodd yr Ymgeisydd amgylchiadau'r trwyddedau i'r Aelodau oedd yn bresennol.

I liniaru, yng nghyswllt y troseddau, dywedodd yr Ymgeisydd i'r prif droseddau ddigwydd amser maith yn ôl pan oedd yn ddyn ifanc a'i fod bellach wedi aeddfedu gyda phlentyn ifanc i'w ystyried.

Ystyriodd y Pwyllgor y dystiolaeth a roddwyd gerbron y Pwyllgor heddiw wrth ddod i benderfyniad ac ystyriodd hefyd yr euogfarnau

blaenorol a'r sylwadau a wnaed gan yr Ymgeisydd. Fe wnaeth y Pwyllgor hefyd ystyried y sylwadau a wnaed gan y Swyddogion Trwyddedu oedd yn bresennol ac ystyried polisi euogfarnau y Cyngor a'r amodau canllawiau yn ymwneud â Thrwyddedau Gyrwyr Cerbyd Hacni a Thrwyddedau Gyrwyr Cerbydau Hur Preifat. Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth neilltuol i natur y trwyddedau, pa mor hir yn ôl y cawsant eu cyflawni, oedran yr ymgeisydd adeg y troseddau a phatrwm y trwyddedau a'r cosbau a osodwyd fel sydd angen o fewn y polisi.

Mae'r Pwyllgor o'r farn fod yr Ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal Trwydded Cerbyd Hacni/Hur Preifat a bod y Pwyllgor felly'n cytuno i'r cais, felly

PENDERFYNWYD fod y Pwyllgor yn cytuno i'r Cais.